# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Mawrth 2024

Amser: 09.31 - 12.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13793

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Darren Millar AS<br>Sarah Murphy AS<br>Jane Dodds AS |
| Tystion: | Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip<br>Catrin Davies, Llywodraeth Cymru<br>Anna Hind, Llywodraeth Cymru<br>Will Whiteley, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Catherine Roberts (Dirprwy Glerc)<br>Josh Hayman (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Claire Thomas (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): y dull o graffu yng Nghyfnod 1

Trafododd y Pwyllgor y dull craffu a chytunodd arno.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau, dirprwyon na datganiadau o fuddiant.

## 3 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r canlynol:

- Cadarnhad a yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio cyngor cyfreithiol allanol ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).
- Y costau i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r achos olaf a ystyriwyd gan y Goruchaf Lys mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol Bil Senedd.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Ymateb gan Gomisiwn y Senedd ynghylch Adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 4 Mawrth 2024

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 4.2 Ymateb gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch yr Adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – 5 Mawrth 2024

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig.

## 6 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.